# Cyngor Sir Ddinbych Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus 2024-2027

# Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

## Cynnwys


Cynnwys 2

Pwrpas yr adroddiad hwn 3

Cefndir i'r Strategaeth Toiledau Lleol 3

Gofyniad deddfwriaethol i gael Strategaeth Toiledau Lleol 3

Gofyniad i ymgynghori ar ddatblygiad asesiad o anghenion lleol, i gefnogi'r Strategaeth Toiledau Lleol 4

Ynglŷn â'r ymgynghoriad 4

Marchnata a hyrwyddo'r ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion 5

Arsylwadau cyffredinol 5

Crynodeb o'r data 6

Crynodeb o'r Ymatebwyr 6

Crynodeb o ymatebion am angen sylfaenol ar gyfer toiledau 6

Crynodeb o ymatebion am angen ychwanegol ar gyfer toiledau 7

Arferion a Dewisiadau 9

Llunio Cynllun Toiledau Cymunedol 11

Sylwadau terfynol ac arsylwadau 12

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata’r ymgynghoriad cyhoeddus

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Nod yr adroddiad hwn yw darparu crynodeb o ymatebion cymunedol a dderbyniwyd gan bartïon â diddordeb o ran Strategaeth Ddrafft Toiledau Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027.

Mae dadansoddiad manwl o ddata’r ymgynghoriad a dderbyniwyd wedi’i gynnwys yn adroddiad Data Manwl o’r Ymgynghoriad ar Strategaeth Toiledau Lleol 2024-2027.

## Cefndir i’r Strategaeth Toiledau Lleol

### Gofyniad deddfwriaethol i gael Strategaeth Toiledau Lleol

Yn unol â gofynion Rhan 8 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, mae gofyn i ni lunio a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Cyhoeddus.

Dylai’r Strategaeth nodi sut rydym yn asesu’r angen am doiledau cyhoeddus yn Sir Ddinbych, a sut byddwn yn rheoli’r angen hwn.

Sylwer: Nid yw’n ofyniad cyfreithiol i’r Cyngor ei hun ddarparu toiledau cyhoeddus, fodd bynnag, mae gofyn i’r Cyngor:

1. Ddarparu tystiolaeth ei fod wedi adolygu anghenion y boblogaeth leol

2. Llunio Strategaeth yn dangos sut caiff yr anghenion hyn eu diwallu rŵan ac i’r dyfodol, er enghraifft, drwy Gynlluniau Toiledau Cymunedol

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

## Gofyniad i ymgynghori ar ddatblygiad asesiad o anghenion lleol, i gefnogi'r Strategaeth Toiledau Lleol

I gefnogi datblygiad y Strategaeth Toiledau Lleol mae'n rhaid i'r Cyngor lunio asesiad o'r angen am doiledau mewn cymunedau lleol. Gall hyn gynnwys defnyddio data presennol (megis gwybodaeth am y boblogaeth) ond dylai hefyd gynnwys ymgynghoriad â phartïon sydd â diddordeb, yn cynnwys:

1. Y cyhoedd, yn cynnwys pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych, pobl sy'n gweithio yn Sir Ddinbych, neu bobl sy'n ymweld â Sir Ddinbych am unrhyw reswm arall (megis twristiaeth).
2. Aelodau Etholedig (Cynghorwyr) Cyngor Sir Ddinbych, neu unrhyw gynrychiolydd etholedig arall sy'n gwasanaethu ardal Sir Ddinbych gyfan neu ran ohoni. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd y DU, a chynrychiolwyr Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych.
3. Aelodau staff sy'n gweithio i Gyngor Sir Ddinbych.
4. Busnesau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Sir Ddinbych.
5. Elusennau, sefydliadau trydydd sector neu eraill sy'n cefnogi pobl neu gymunedau a allai fod â mwy o angen am doiledau o'u cymharu â'r gymuned ehangach (er enghraifft, Crohn's a Colitis, Age Cymru ac ati).

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad i lywio fersiwn derfynol yr Asesiad o Anghenion Drafft, a fydd, yn ei dro, yn llywio datblygiad fersiwn nesaf o Strategaeth Toiledau Lleol y Cyngor, a bydd yn rhaid i'r Cyngor ymgynghori ar hon ar wahân ar ôl ei llunio.

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027:  Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

## Marchnata a hyrwyddo'r ymgynghoriad ar yr Asesiad o Anghenion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 22 Gorffennaf 2024 a 17 Medi 2024. Cyhoeddwyd tudalen we ac arolwg ymgynghori ar wefan Porth Sgwrs y Sir y Cyngor, ac roedd copïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd lleol.

Fe anfonwyd e-bost am yr ymgynghoriad at Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned unigol sydd eisoes â thoiledau yn eu cymunedau sy'n berchen i'r Cyngor neu sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor, ac fe gawsant 8 wythnos i ymateb yn unol â Siarter Cyngor Dinas, Tref a Chymuned y Cyngor.

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad i'r cyhoedd ehangach drwy ddatganiad newyddion ar wefan y Cyngor, a thrwy gyhoeddiadau ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Cyrhaeddodd y 3 neges ar gyfryngau cymdeithasol gyfanswm o 34,872 o bobl ac fe gliciwyd ar y ddolen i'r ymgynghoriad 826 o weithiau.

Mae'r Cyngor yn deall bod y dolenni i'r ymgynghoriad a'r arolwg wedi cael eu rhannu mewn mannau eraill ar gyfryngau cymdeithasol, ond nid oes ganddo ffordd o olrhain y rhain.

## Arsylwadau cyffredinol

Cafodd y posibilrwydd o gau portffolio toiledau y Cyngor ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor ar 14 Mawrth 2024, er ni ddaethpwyd i benderfyniad ar bortffolio toiledau cyhoeddus bryd hynny.  Fe arweiniodd y drafodaeth flaenorol gan y Pwyllgor craffu Cymunedau at rywfaint o ddryswch ymysg aelodau'r cyhoedd am bwrpas yr ymgynghoriad Asesiad o Anghenion.

Yn sgil y dryswch hwn, roedd tua 455 o ymatebion allan o 1,411 o dan yr argraff eu bod yn 'pleidleisio' ar benderfyniad ynglŷn a ddylai portffolio toiledau cyhoeddus y Cyngor gael ei

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

gadw, yn hytrach na chymryd rhan mewn ymgynghoriad am asesu angen cyffredinol am doiledau yn Sir Ddinbych.

## Crynodeb o'r data

### Crynodeb o'r Ymatebwyr

1. Roedd 76% o ymatebwyr yn breswylwyr yn Sir Ddinbych
2. Daeth mwyafrif yr ymatebion o'r Rhyl, Prestatyn a Llangollen, sef tua 64% o'r holl ymatebwyr
3. Roedd tua 6% o'r holl ymatebwyr yn dwristiaid neu'n ymwelwyr â Sir Ddinbych
4. Dywedodd tua 63% fod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sydd yn effeithio ar eu hanghenion o ran defnyddio toiledau
5. Roedd tua 52% o ymatebwyr dros 65 mlwydd oed
6. Roedd tua 12% o ymatebwyr yn rhiant neu'n ofalwr i blentyn neu blant o dan 4 mlwydd oed

### Crynodeb o ymatebion am angen sylfaenol ar gyfer toiledau

Cyflwynwyd y cymarebau a awgrymwyd i fodloni'r angen sylfaenol am doiledau i'r ymatebwyr (h.y. wedi seilio ar anghenion y boblogaeth breswyl yn unig)

1. Roedd dros 80% o ymatebwyr **yn cytuno** gyda'r ddarpariaeth sylfaenol ar gyfer y canlynol:
    a. *O leiaf* un cyfleuster ym mhob cymuned gyda phoblogaeth breswyl o 5,000 neu fwy.
    b. *O leiaf* un ciwbicl am bob 550 o ferched ac *o leiaf* un ciwbicl am bob 1,100 o ddynion am bob cymuned sydd angen cyfleuster.

2. Ar gyfer yr holl gategorïau sy'n weddill ar gyfer y ddarpariaeth sylfaenol, **cytunodd** rhwng 65-80% o ymatebwyr gyda'r ddarpariaeth ganlynol a awgrymwyd:

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

a. O leiaf un cyfleuster anabl i unrhyw ryw am bob 10,000 o'r boblogaeth
b. O leiaf un cyfleuster Changing Places am bob 10,000 o'r boblogaeth
c. O leiaf un cyfleuster newid clytiau i unrhyw ryw am bob 10,000 o'r boblogaeth

Gan fod yna fwyafrif o gonsensws, fe awgrymwyd y gellir cadarnhau 'darpariaeth sylfaenol' yr Asesiad o Anghenion heb angen pellach am ymgynghoriad.

## Crynodeb o ymatebion am angen ychwanegol ar gyfer toiledau

Cyflwynwyd gofynion ychwanegol am doiledau i ymatebwyr, yn seiliedig ar newidiadau demograffeg a thymhorol y boblogaeth.

1. Ar y cyfan, roedd 82% o ymatebwyr yn cytuno gyda'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer poblogaeth hŷn: 1 ciwbicl ychwanegol i ddynion ac 1 ciwbicl ychwanegol i ferched am bob 5% o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed, yn uwch na chyfartaledd Cymru o 21.2% o'r boblogaeth
2. Ar y cyfan, roedd 78% o ymatebwyr yn cytuno gyda'r ddarpariaeth ychwanegol o bobl gydag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor
3. Ar y cyfan, roedd 78% o bobl yn cytuno gyda'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer cyfleusterau newid clytiau
4. Ar y cyfan, roedd 84% o ymatebwyr yn cytuno gyda'r ddarpariaeth reolaidd ychwanegol ar gyfer twristiaeth, ac roedd 75% yn cytuno gyda'r ddarpariaeth Changing Places ychwanegol ar gyfer twristiaeth

**Nodyn**: Cafodd twristiaid neu sefydliadau sy'n cynrychioli twristiaid/busnesau twristiaeth eu tan-gynrychioli yn yr arolwg.

Felly fe argymhellir rhagor o ymgysylltu gyda'r categorïau yma o ymatebwyr er mwyn deall beth fydd ymwelwyr â Sir Ddinbych ei angen allan o doiledau cyhoeddus.

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027:  Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

Mae yna fwyafrif o gonsensws ar gyfer y categorïau sy'n weddill gan grŵp cynrychiadol yn ystadegol o ymatebwyr am ddarpariaeth ychwanegol, ac felly fe argymhellir bod y darpariaethau ychwanegol ar gyfer poblogaeth hŷn, poblogaeth anabl a phoblogaeth iau yn cael eu cadarnhau yn y fersiwn derfynol o'r Asesiad o Anghenion.

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

## Arferion a Dewisiadau

Yn y rhan yma, bu'n rhaid i ymatebwyr sôn am eu harferion a'u dewisiadau wrth feddwl am ddefnyddio toiledau cyhoeddus.

1. Cytunodd tua 71% o bobl bod 300m yn dderbyniol fel pellter **uchafswm** rhwng toiledau cyhoeddus a chyfleusterau neu amwynderau eraill megis maes parcio, atyniadau hamdden, mannau harddwch ac ati.
2. Dylid nodi bod y mwyafrif o'r rhai a anghytunodd (tua 20% o ymatebwyr) yn teimlo bod 300m yn rhy bell.
3. Dywedodd tua 25% o ymatebwyr y byddent yn cynllunio eu diwrnod yn benodol o amgylch argaeledd toiled, serch hynny roedd hyn yn cynyddu i tua 36% o ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sydd yn effeithio sut maent yn defnyddio'r toiled.
4. Ar y cyfan, dywedodd y mwyafrif (43%) o ymatebwyr mai'r math o doiled yr oeddynt yn ei ffafrio oedd un oedd yn agos at faes parcio neu gyfleusterau parcio anabl. Roedd hyn yn cynyddu i 52% o ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sydd yn effeithio ar eu hanghenion o ran toiledau.
5. O ran dod o hyd i doiledau:
    a. Arwyddion oedd y peth pwysicaf, a dywedodd tua 83% o ymatebwyr y byddent yn chwilio am arwydd 'Toiledau Cyhoeddus'
    b. Dywedodd tua 42% o ymatebwyr y byddent yn ymweld â busnes roeddynt yn gwybod a fyddai'n debygol o fod â thoiled
    c. Dywedodd tua 37% o ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am doiled yn agos at eu lleoliad. O'r ymatebwyr yma:
        i. Byddai tua 47% yn edrych ar wefan Cyngor Sir Ddinbych
        ii. Byddai tua 27% yn edrych ar wefan y busnes roedden nhw'n meddwl allai fod â thoiledau cyhoeddus
        iii. Byddai tua 26% yn dibynnu ar Google i ddefnyddio data perthnasol i ddweud wrthynt lle mae'r toiledau cyhoeddus agosaf

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

6. Ar y cyfan, roedd tua 60% o ymatebwyr yn barod i dalu i ddefnyddio toiledau cyhoeddus.
    a. Roedd hyn yn cynyddu i 72% o ymatebwyr i bobl 65 mlwydd oed neu hŷn
    b. Roedd hyn yn gostwng i tua 48% o ymatebwyr (ychydig yn llai na hanner) sydd â phlentyn neu blant o dan 4 mlwydd oed.
    c. Ar y cyfan, roedd tua 37% o'r ymatebwyr yn fodlon talu i ddefnyddio toiled yn cefnogi ffi oedd gyfystyr â neu'n fwy na'r pris presennol sef 40c, ac roedd 63% yn cefnogi ffi hyd at y swm presennol o 40c.
7. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn awyddus i weld toiledau ychwanegol (y tu hwnt i'r hyn mae'r Cyngor yn ei ddarparu) ar gael i'r cyhoedd yn ehangach.
    a. Roedd 66.5% o ymatebwyr eisiau i'r Cyngor sefydlu Cynllun Toiledau Cymunedol
    b. Roedd 33.5% yn teimlo y dylai busnesau mwy sydd eisoes yn darparu toiledau cyhoeddus agor y rhain i'r cyhoedd eu defnyddio

**Sylwadau ac Argymhellion:**

Tra bod y mwyafrif o ymatebion yn cytuno gyda'r pellter uchafswm a amlinellwyd rhwng toiledau cyhoeddus a chyfleusterau, amwynderau neu atyniadau eraill, mae hi'n amlwg bod yna gyfran helaeth o bobl sydd wedi dweud y byddent yn cael trafferth â'r pellter hwnnw. Roedd yna hefyd ddewis clir bod toiledau yn agos at feysydd parcio neu fannau parcio anabl.

Felly, cyn bod y pellter uchafswm yn cael ei gadarnhau yn yr Asesiad o Anghenion, fe argymhellir bod ymgynghoriad neu ymgysylltu pellach yn cael ei wneud gyda:

1. Pobl (neu elusennau/sefydliadau sy'n cefnogi pobl) sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor, sy'n effeithio sut maen nhw'n defnyddio'r toiled
2. Yr unigolion neu dimau yng Nghyngor Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am ail alluogi, monitro cydraddoldeb, gweinyddu bathodynnau glas, cludant cynaliadwy a theithio llesol.

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

O ran dod o hyd i doiledau, mae arwyddion mewn lleoliadau poblogaidd yn bwysig i fwyafrif yr ymatebwyr. Fe fydd y Cyngor angen ystyried hyn tra'n llunio Cynllun Toiledau Cymunedol.

Roedd defnyddio gwefan Cyngor Sir Ddinbych a Google (sef peiriant chwilio, yn hytrach na gwefan) hefyd yn bwysig i ymatebwyr.

Fe argymhellir felly tra'n llunio'r Cynllun Toiledau Cymunedol, bod ymgynghori'n digwydd gyda thîm y we a TGCh y Cyngor er mwyn sicrhau y bydd unrhyw fformat cyhoeddi y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i arddangos toiledau cyhoeddus yn gweithio'n dda gyda pheiriannau chwilio trydydd parti megis Google.

## Llunio Cynllun Toiledau Cymunedol

Yn yr adran yma, bu'n rhaid i'r ymatebwyr ddeud beth yr hoffent ei weld mewn Cynllun Toiledau Cymunedol, petai'r Cyngor yn llunio un.

1. Archfarchnadoedd, atyniadau i ymwelwyr a chaffis, bwytai a thafarndai oedd y mathau o fusnesau yr oedd ymatebwyr eisiau eu gweld yn ymuno â'r cynllun.
2. Dywedodd tua 65% o ymatebwyr y byddent yn fwy tebygol o gefnogi busnes sy'n cymryd rhan mewn Cynllun Toiledau Cymunedol (trwy brynu nwyddau neu wasanaethau gan y busnes hwnnw) hyd yn oed os nad oedd rheidrwydd arnynt i wneud hynny.
3. Glendid, hylendid a chael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da oedd y meini prawf pwysicaf i fwyafrif yr ymatebwyr wrth feddwl am y math o doiled cymunedol yr hoffent ei ddefnyddio.
4. Roedd tua 95% o'r ymatebwyr eisiau i doiledau fod ar gael yn ystod y dydd (9am - 5pm), ac roedd tua 55% o'r ymatebwyr eisiau i doiledau fod ar gael min nos (5pm to 11pm). Roedd llai na 5% o'r ymatebwyr yn credu eu bod angen mynediad at doiledau dros nos.

# Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024-2027: Adroddiad cryno o ddata'r ymgynghoriad cyhoeddus

## Sylwadau terfynol ac arsylwadau

Ar y cyfan, mae'r Asesiad o Anghenion yn addas i'w gymeradwyo.

Mae angen gwneud ychydig o waith er mwyn sicrhau bod anghenion pobl anabl neu bobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn cael eu bodloni, a bod ymdrech ddigonol wedi cael ei wneud i gasglu barn twristiaid a busnesau twristiaeth.

Fe ddylai hyn hefyd gael ei adlewyrchu yn Strategaeth Toiledau Lleol y Cyngor, yn enwedig mewn cymunedau lle nad yw'r ddarpariaeth sylfaenol ac ychwanegol yn cael ei bodloni ar hyn o bryd (hyd yn oed drwy gynnwys portffolio toiledau cyhoeddus y Cyngor).

Mae yna deimlad cryf ymysg ymatebwyr y dylai portffolio toiledau cyhoeddus y Cyngor gael ei gadw, ac mae yna gefnogaeth dros godi tâl am eu defnyddio. Fe argymhellir y gwneir gwaith ymchwil i oblygiadau'r safbwyntiau yma cyn y gwneir penderfyniad terfynol ar bortffolio toiledau cyhoeddus y Cyngor.

Mae yna ddigon o wybodaeth i'r Cyngor gychwyn llunio Cynllun Toiledau Cymunedol a chofrestru busnesau bosibl, serch hynny mae angen rhywfaint o ymgysylltu mewnol (h.y. ymgysylltu â swyddogion/timau eraill o amgylch y Cyngor) o ran sut y gallai'r cynllun gael ei weinyddu.